



# Rhyfelwyr y tywydd



# Cyflwyniad

## Trosolwg

Mae'r wers hon yn dod â chymuned, cydweithio a gweithredu cymdeithasol ynghyd drwy helpu myfyrwyr i ddeall sut gall gwybodaeth am y tywydd a newid yn yr hinsawdd gefnogi eu hardal leol a bod o fydd iddi. Yn ogystal, mae'n cynnwys enghreifftiau o sefydliadau sy'n gweithio i gadw cymunedau'n ddiogel rhag effeithiau tywydd garw



## Amser angenrheidiol

60 munud ar gyfer yr holl weithgareddau (neu lai os ydych chi'n dewis tasgau unigol)



## Deunyddiau angenrheidiol

- Sleidiau rhyfelwyr y tywydd
- Ffilm rhyfelwyr y tywydd
- Templed o gynllun gweithredu (ar gael ar dudalen 6)
- Proffil Pwy all helpu? (ar gael ar dudalen 7)
- Pennau a phapur
- Mynediad at y rhyngwrwyd (ar gyfer gwaith ymchwil ar-lein)

## Amcanion dysgu

Bydd y wers hon yn galluogi disgyblion i:

- Ystyried sut mae'r tywydd a newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnom ni'n bersonol ac fel cymuned
- Datblygu strategaethau asesu risg a sgiliau a fydd yn helpu i gadw nhw eu hunain ac eraill yn ddiogel
- Datblygu dealltwriaeth o'r ffordd y caiff sgiliau mathemategol eu defnyddio a'u cymhwyso ym myd go iawn maes y tywydd a newid yn yr hinsawdd

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

- **Mathemateg a rhifedd** – deall sut y caiff amrywiaeth eang o sgiliau mathemategol eu defnyddio wrth astudio'r tywydd drwy raffiau, canrannau, cyfartaleddau
- **Gwyddoniaeth/gwyddorau a thechnoleg** – tystiolaeth, gwerthuso, adrodd a rheoli risg)
- **ABGI a dinasyddiaeth/ABCh/iechyd a Lles/Datblygiad Personol a Chyd-ddealltwriaeth** – esbonio dewisiadau, gyrfaedd a'r byd gwaith, sgiliau oes, cyfrannu at welliant cymunedol
- **Daearyddiaeth/astudiaethau cymdeithasol/y byd o'n cwmpas** – deall amgylcheddau a'r hinsawdd; a sut mae gweithgaredd dynol yn dibynnu ar systemau naturiol sy'n gweithredu'n effeithiol
- **Cyfrifiadura/TGCh** – prosiectau creadigol gdan ddefnyddio nifer o adnoddau digidol i gyflawni nodau heriol

# Camau'r Gweithgaredd



## 01

Defnyddiwch y sleidiau a'r ffilm rhyfelwyr y tywydd ategol i gyflwyno'r dosbarth i fathau gwahanol o ddigwyddiadau tywydd garw yn y DU a'u heffaith ar gymunedau lleol.

**Awgrym:** Efallai y byddwch chi hefyd am ddefnyddio enghraifft o ddigwyddiad tywydd garw lleol, rhywbeth o bosibl y gall y myfyrwyr fod wedi'i weld ar y newyddion lleol/wedi clywed sôn amdano i wneud y wers yn fwy perthnasol.

Gan weithio gyda'r unigolyn wrth eu hymyl, gofynnwch i'r myfyrwyr nodi'r effeithiau y gallai'r mathau hyn o ddigwyddiadau tywydd garw eu cael.

## 02

Rhannwch y myfyrwyr yn grwpiau bach. Rhowch lechen neu ddyfais symudol arall iddynt, a rhowch fath o dywydd garw o'r sleid i bob un o'r grwpiau.

Gofynnwch i'r grwpiau wneud ymchwil ac ysgrifennu astudiaeth achos o ddigwyddiad tywydd go iawn yn y gorffennol sy'n cyd-fynd â'r math o dywydd garw a roddwyd iddynt E.e. Os yw'r grŵp wedi derbyn llifogydd, dylai'r myfyrwyr greu astudiaeth achos o ddigwyddiad yn y byd go iawn lle cafwyd llifogydd.

Gall grwpiau ddefnyddio'r deunyddiau astudiaeth achos **yma** i nodi astudiaeth achos sy'n cyd-fynd â'u math nhw o dywydd garw a chychwyn ar eu hymchwil. Byddant yn defnyddio'r astudiaeth achos hon yn hwyrach i gefnogi cynllun gweithredu ar gyfer digwyddiad tebyg yn y dyfodol.



5 munud



Gwaith grŵp



Sleidiau 2 – 3



Ffilm rhyfelwyr y tywydd



20 munud



Gwaith grŵp



Sleid 4

# Camau'r Gweithgaredd

Defnyddiwch yr awgrymiadau canlynol i lywio'r hyn ya d dylai ymchwil y myfyrwyr ei chynnwys:

- Trosolwg o'r digwyddiad a'r problemau a achoswyd
- Beth oedd yr effaith ar unigolion a chymunedau? Pwy oedd yn y perygl mwyaf? Pam?
- Gan ddefnyddio ystadegau y daethpwyd ar eu traws yn eu hymchwil, beth oedd effeithiau'r digwyddiad tywydd?
- A oedd achosion o anafiadau, salwch, pobl yn cael eu hanfon i'r ysbyty? A oedd risg o darfu ar yr isadeiledd ynni neu drafnidiaeth?
- Dulliau a ddefnyddiwyd i liniaru'r risg, gan gynnwys gwybodaeth a rhybuddion am y tywydd (a newid mewn ymddygiad o ganlyniad)
- Sut ymatebodd y gwasanaethau brys?
- Beth sy'n achosi digwyddiadau fel hyn a pha mor debygol yw hynny o ddigwydd eto yn y dyfodol?
- Casgliadau ar yr hyn a wnaed yn dda a'r hyn y gellid bod ei wella o ran sut i baratoi, rheoli a lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau tebyg yn y dyfodol

## 03

Rhowch dempled cynllun gweithredu i bob grŵp (ar dudalen 6) a phroffiliau pwy all helpu? (ar dudalen 7). Rhowch her i'r grwpiau, sef creu cynllun ar gyfer cymuned leol yr effeithiodd y digwyddiad yn eu hastudiaeth achos arni. Dylai hwn helpu i gynllunio a pharatoi nhw eu hunain a'u cymunedau ar gyfer digwyddiad tebyg yn y dyfodol.

Esboniwch mai prif nod y cynllun hwn fydd nodi rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â digwyddiad tywydd garw, nodi meysydd ar gyfer gwelliant a helpu i liniaru risgiau i'r gymuned yn y dyfodol.



15 munud



Gwaith grŵp



Proffiliau Pwy all helpu?



Templed cynllun gweithredu

# Camau'r Gweithgaredd

## 04

Gwahoddwch bob grŵp i gyflwyno ei gynllun gweithredu – gellir gwneud hyn mewn fformatau amrywiol, gan gynnwys sioe sleidiau, adroddiad ysgrifenedig neu chwarae rôl. I ychwanegu elfen gystadleuol, gofynnwch i'r timoedd i bleidleisio dros eu hoff gyflwyniadau. Gall y grŵp/grwpiau sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau roi cyflwyniad i'w grŵp blwyddyn mewn gwasanaeth neu aelodau'r uwch dîm arwain.

**Awgrym:** Fel arall, os oes gennych chi gysylltiadau â chynrychiolwyr cymunedol o sefydliadau lleol, efallai yr hoffech chi eu gwahodd i gymryd rhan yn y bleidlais/ gwaith barnu a rhoi cyflwyniad byr i'r myfyrwyr i gefnogi eu dealltwriaeth a'u hannog i gyfranogi'n fwy. Yn ogystal, mae'n rhoi'r cyfle i ofyn am gyfleoedd gwirfoddoli i'r myfyrwyr yn eu cymuned leol i helpu i feithrin eu diddordeb ac ymestyn eu dysgu.



15 munud



Gwaith grŵp

## 05

Gorffennwch y wers drwy ofyn i'r myfyrwyr nodi'r canlyniadau allweddol y maent wedi'u dysgu yn ystod y gweithgaredd drwy ddefnyddio'r cwestiynau cynorthwyol canlynol fel canllaw:

- Pam mae gwybodaeth am y tywydd yn bwysig i gymunedau?
- Beth yw asesiad risg a pham mae'n bwysig?
- Pam mae sgiliau mathemategol yn bwysig ar gyfer gyrfaedd ym maes y tywydd a'r hinsawdd?

Fel tasg fyfyrion derfynol, gofynnwch i bob myfyriwr ysgrifennu un addewid sy'n nodi sut y bydd yn mynd ati i helpu ei gymuned leol i wynebu digwyddiadau tywydd garw a pharatoi ar eu cyfer.



5 munud



Tasg unigol

# Templed cynllun gweithredu

**Y lleoliad y mae'ch cynllun gweithredu ar ei gyfer:**

**Math o dywydd garw:**

**Prif risgiau tywydd garw:**

**Syniadau ar gyfer lleihau effaith y tywydd garw:**

**Sut a pham y byddai'r tywydd eithafol yn effeithio ar bobl wahanol yn y gymuned leol:**

**Amserlen sy'n nodi pa gamau gweithredu y byddai angen eu cymryd a phryd a'r swyddi sy'n gysylltiedig â chefnogi'r gymuned**

# Pwy all helpu?

## Asiantaethau diogelu rhag llifogydd

Mae arbenigwyr yn Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, Cyfoeth Naturiol Cymru a NI Direct, ar y cyd ag asiantaethau eraill, yn helpu i liniaru'r risg o lifogydd



## Gwylwr y glannau

Pan fydd yn stormus a phan fydd perygl o lifogydd arfordirol, mae tîm gwylwr y glannau yn gweithio i gadw pobl yn ddiogel ar y tir a'r môr



## Gwasanaethau meddygol brys

Mae staff ambiwlans a'r ysbyty yn gweithio'n ddibaid i drin pobl sy'n sâl neu sydd wedi'u hanafu o ganlyniad i amodau tywydd garw e.e. trawiad gwres



## Gwasanaeth tân

Mae diffoddwyr tân yn cefnogi cymunedau mewn tywydd garw trwy helpu pobl i aros yn ddiogel yn ystod llifogydd a helpu i amddiffyn cartrefi rhag dŵr llifogydd



## Yr heddlu

Mae'r heddlu yn helpu i gyfathrebu gwybodaeth am ddiogelwch mewn perthynas â digwyddiadau tywydd garw. Mae hefyd yn gweithio i gadw ffyrdd yn glir a chwilio am bobl sydd ar goll

